

CYNGOR BRO MORGANNWG

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Hybrid a gynhaliwyd ar 8 Mai, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Julie Aviet (Maer); Councillors Anne Asbrey, Gareth Ball, Rhiannon Birch, Bronwen Brooks, Gillian Bruce, Ian Buckley, Lis Burnett, Samantha Campbell, George Carroll, Christine Cave, Charles Champion, Janice Charles, Millie Collins, Marianne Cowpe, Pamela Drake, Vincent Driscoll, Anthony Ernest, Robert Fisher, Christopher Franks, Emma Goodjohn, Ewan Goodjohn, Stephen Haines, Howard Hamilton, William Hennessy, Nic Hodges, Mark Hooper, Catherine Iannucci-Williams, Gwyn John, Dr. Ian Johnson, Susan Lloyd-Selby, Belinda Loveluck-Edwards, Julie Lynch-Wilson, Kevin Mahoney, Naomi Marshallsea, Michael Morgan, Jayne Norman, Helen Payne, Elliot Penn, Sandra Perkes, Ian Perry, Joanna Protheroe, Ruba Sivagnanam, Carys Stallard, Neil Thomas, Rhys Thomas, Margaret Wilkinson, Edward Williams, Mark Wilson a Nicholas Wood.

1. CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Maer y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr Wendy Gilligan, Russell Godfrey, Sally Hanks a Steffan Wiliam.

3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

4. ETHOL MAER –

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Neil Thomas ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ian Buckley y dylid ethol y Cynghorydd Elliot Penn yn Faer.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd George Carroll ac eiliwyd gan y Cynghorydd Janice Charles y dylid ethol y Cynghorydd Russell Godfrey yn Faer.

Ar y mater yn cael ei roddi i bleidlais, yr oedd

PENDERFYNWYD – Ethol y Cynghorydd Elliot Penn yn Faer y Cyngor am y flwyddyn ddinesig i ddod.

Gwnaeth y Maer newydd ei benodi a chyflwyno i'r Prif Weithredwr y Datganiad Statudol o Dderbyn y Swydd, a'i arwisgo gan y Maer a oedd yn gadael gyda Chadwyn y Swydd a daeth i'r Gadair.

5. PENODI DIRPRWY FAER –

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Catherine Iannucci-Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd Howard Hamilton bod y Cynghorydd Naomi Marshallsea yn cael ei hethol yn Ddirprwy Faer.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd George Carroll ac eiliwyd gan y Cynghorydd Janice Charles y dylid ethol y Cynghorydd Russell Godfrey yn Ddirprwy Faer.

Ar y mater yn cael ei roddi i bleidlais, yr oedd

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd Naomi Marshallsea yn Ddirprwy Faer y Cyngor am y flwyddyn ddinesig i ddod.

Gwnaeth y Dirprwy Faer newydd ei benodi a chyflwyno i'r Prif Weithredwr y Datganiad Statudol o Dderbyn y Swydd, fe'i arwisgwyd â Chadwyn y Swydd a chymerodd y Gadair.

6. CYFEIRIAD Y MAER –

Diolchodd y Maer i'r Cynghorydd Neil Thomas am ei eiriau caredig wrth ei enwebu ar gyfer Maer, a'r Cynghorydd Ian Buckley am eilio'r enwebiad hwnnw. Parhaodd y Maer drwy roi gwybod, "Fy nghydweddog fydd fy mhartner anhygoel, Jo Byworth-Morgan, sy'n fy helpu i gyflawni fy rôl fel Cynghorydd, ac yn awr fel Maer, mewn cynifer o ffyrdd.

Mae'n anrhydedd mawr cael fy ethol yn Faer gennych chi a byddaf yn cynnal y safonau a ddisgwylir gan y swydd honno. "Rwy'n edrych ymlaen at gynrychioli Bro Morgannwg mewn llawer o ddigwyddiadau amrywiol drwy gydol y flwyddyn.

Rwy'n falch o'r holl waith caled gan drigolion Bro Morgannwg am gyflawni'r ail gyfraddau ailgylchu gorau yng Nghymru (ac rwy'n gobeithio y byddwn yn cyrraedd y safle uchaf yn fuan iawn), diolch i'r oriau di-ri o wirfoddoli a wnaed. Ymdeimlad cryf o gymuned – bob amser yn helpu ein gilydd.

Rydym yn cael ein hethol i gynrychioli holl drigolion Bro Morgannwg ac rydym yn ymfalchïo yn y croeso cynnes iawn a roddwn, p'un a ydych chi'n ymweld â'n traethau trawiadol a'n trefi anhygoel ar wyliau, wedi symud yma oherwydd bod y Fro wedi cyrraedd rhestr y Lleoedd Gorau i Fyw yng Nghymru yn y Sunday Times, neu wedi ffoi o ryfel neu erledigaeth.

Rwy'n edrych ymlaen at Fro Morgannwg yn ennill statws Sir Noddfa.

Mae cerdd gan Brian Bilston sy'n dod i'r cof.

The Kindness of Strangers.

There is a beauty that walks in the darkness, makes its way among the bombs and broken lives.

Offers blankets and shoulders to cry on, puts on kettles and bandages, mends what it can.

And asks for not one thing back, as it wraps in its arms the troubled night.

And waits for morning and its pale light.

Felly, fel Maer, hoffwn ganolbwyntio yn ystod fy mlwyddyn yn y swydd ar wella bywydau'r holl bobl sy'n byw yma gan adeiladu cymunedau gwell a chroesawu pawb sy'n dod i'r sir am ba reswm bynnag ac sydd angen ein help. Cynhwysiant a chynrychiolaeth i bawb beth bynnag yw lliw eu croen, eu rhywedd, eu hil, eu cenedligrwydd neu eu crefydd.

Rydym yn croesawu pawb."

7. PLEIDLAIS O DDIOLCH I'R MAER SY'N YMDDEOL AC ANERCHIAD Y MAER SY'N YMDDEOL –

Diolchodd y Maer i'r Maer sy'n ymddeol am y ffordd yr oedd wedi ymgymryd â'i rôl yn 2023/24. Mewn ymateb, dywedodd y Maer a oedd yn ymddeol, "Mae wedi bod yn anrhydedd ac yn ffrind enfawr i fod wedi cynrychioli Bro Morgannwg dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwyf wedi cael gwahoddiad i lawer o leoedd ac wedi cwrdd â llawer o bobl o bob cefndir. Pobl na fyddwn i erioed wedi cael cyfle i gwrdd â nhw. Boed hynny mewn digwyddiad swyddogol mawr neu gynulliad o chwech o bobl o amgylch bwrdd, roedd pob sgwrs yn bwysig.

Mae'r profiad hwn wedi ehangu fy ngolwg ar y Fro a'i thrigolion ac rwy'n siarad ac yn ymffrostio'n rheolaidd am ein Sir hardd ac, wrth gwrs, Dde Cymru gyfan.

Roeddwn mor falch o wisgo'r gwisgoedd a'r gadwyn ac ie, hyd yn oed yr het a'r ffrilen ar brydiau, yn falch o osod torchau er cof am ein harwyr syrthiedig, na fethodd erioed i ddod â deigr yn i'm llygad.

Byddaf yn colli bod yn aelod o "The Chain Gang", y llysenw yr oedd y Meiri a'r Cadeiryddion eraill yn galw eu hunain. Rwyf wedi mwynhau pob munud o'm tymor yn y swydd, a byddaf yn parhau i hyrwyddo ac ymffrostio am Fro Morgannwg yn y dyfodol.

Nawr dyma'r diolchiadau.

- Y sefydliadau a'r grwpiau cymunedol ar gyfer y gwahoddiadau lle dysgais pa mor bwysig yw pobl i'w gilydd;
- Fy nheulu am eu cefnogaeth, a hwythau dal ddim yn gwybod beth oeddwn i'n ei wneud ond a oedd yn gwybod fy mod i'n hapus wrth ei wneud;

- Y gwarchodwr bag llaw proffesiynol, fy Nghydweddog Mr. Brian Morris;
- Y bwrdd uchaf yn y Cyngor Llawn ac yn arbennig Karen Bowen am fy helpu gyda chamau bach i ymdopi â'r cyfarfodydd;
- I Mike Tipples am fy ngyrru i le dwi angen bod;
- Yn olaf, ond nid yn lleiaf, Charlotte Western o'r Gwasanaethau Democrataidd am drefnu dyddiadur y Maer ac yn gofalu amdanaf yn gyffredinol.

Yn olaf, hoffwn ddymuno'r gorau i'r Cynghorydd Elliot Penn yn ystod ei gyfnod yn y swydd ac rwy'n siŵr y bydd yr un mor falch â minnau i gynrychioli Bro Morgannwg. Diolch."

8. TREFNIADAU GWEITHREDOL – AELODAU A PHORTFFOLIOS Y CABINET (PW) –

Roedd Adran 4.10.1(f) y Cyfansoddiad, "Rheolau Gweithdrefn y Cyngor – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor", yn darparu y byddai'r Arweinydd yn rhoi enwau'r Cyngorwyr a ddewiswyd i fod yn Ddirprwy Arweinydd i'r Cyfarfod Blynyddol ynghyd â nifer ac enwau'r Aelodau i'w penodi i'r Cabinet a'u portffolios/cyfrifoldebau a'r Aelodau i'w dynodi'n "Hyrwyddwyr" y Cyngor.

Roedd adran 5.2 y Cyfansoddiad, "Ffur a Chyfansoddiad y Weithrediaeth", yn darparu y byddai'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac o leiaf ddau Gynghorydd arall, ond dim mwy na naw, a benodwyd i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Arweinydd y byddai Portffolios y Cabinet yn aros yr un fath, ond achubodd yr Arweinydd ar y cyfle i hysbysu'r Cyngor bod y Cynghorydd Gwyn John wedi rhoi'r gorau i fod yn Arweinydd Annibynwyr Llanilltud Fawr yn Gyntaf gyda'r Cynghorydd Eddie Williams bellach yn ymgymryd â'r swydd honno. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r Cynghorydd John yn parhau i fod yn aelod o'r Cabinet a'i longyfarch ar ei wasanaeth 25 mlynedd ar y Cyngor.

Tynnodd yr Arweinydd sylw hefyd at "Rolau'r Hyrwyddwyr" canlynol a fyddai'n parhau i gael eu cyflawni gan ddeiliad y swydd a nodir:

- Hyrwyddwr Craffu – Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu;
- Hyrwyddwr Datblygu Aelodau – Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD –

(1)NODI, fel y cynghorwyd gan yr Arweinydd, y byddai'r Cynghorydd B.E. Brooks yn Ddirprwy Arweinydd ac y dylid nodi Aelodau'r Cabinet, ynghyd â manylion eu portffolios fel a nodir isod, ynghyd â rolau'r "Hyrwyddwyr" dynodedig fel yr amlinellwyd yng Ngwybodaeth Ategol yr adroddiad:

- Y Cynghorydd L. Burnett – Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

- Y Cynghorydd B.E. Brooks – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy
- Y Cynghorydd R.M. Birch – Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg
- Y Cynghorydd G. John – Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles
- Y Cynghorydd S. Sivagnanam – Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol
- Y Cynghorydd S.D. Perkes – Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus a Chynnwys Tenantiaid
- Y Cynghorydd E. Williams – Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Y Cynghorydd M.R. Wilson – Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu.

(2) Y DYLAI Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd yn parhau i gael eu dynodi'n Hyrwyddwyr Craffu a Datblygu Aelodau'r Cyngor yn y drefn honno;

(3) NODI taliadau'r Cyngor o Uwch Gyflogau ar gyfer 2024/25 yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Er mwyn cydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor.

9. PWYLLGORAU CRAFFU: PENODI, AELODAETH, CYLCH GORCHWYL A DYRANNU SWYDDI'R CADEIRYDD (PW) –

Roedd gofyniad, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ynghylch dyrannu swyddi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu. Yn ei hanfod, roedd gan unrhyw Grŵp, neu Grwpiau, a gynrychiolir ar y Cabinet hawl (o'u cymryd gyda'i gilydd) i gyfran o swyddi Cadeirio Pwyllgorau Craffu, sy'n cyfateb i gyfanswm nifer y seddi (o'u cymryd gyda'i gilydd) ar y Cyngor. Ar ôl i'r cyfrifiad hwn gael ei wneud, byddai gweddill swyddi Cadeirio Pwyllgorau Craffu yn dod yn "eiddo" i'r Grwpiau nad ydynt yn rhai Cabinet (unwaith eto, i'w dyrannu'n gymesur â chyfanswm nifer y seddi a ddelir gan y Grwpiau perthnasol ar y Cyngor).

Mae Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi Cylch Gorchwyl, rôl gyffredinol a swyddogaethau penodol y Pwyllgorau Craffu, ac roedd copi ohono wedi'i atodi yn Atodiad B i'r adroddiad. Roedd manylion aelodaeth y Pwyllgorau Craffu wedi'u lledaenu cyn y cyfarfod fel Gwybodaeth Atodol ar sail gwybodaeth a roddwyd gan Arweinwyr Grwpiau.

Tynnodd yr Arweinydd, wrth gyflwyno'r adroddiad, sylw at ddyrannu Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu fel y cynghorwyd gan yr Arweinwyr Grŵp ac fel y nodwyd yn yr wybodaeth atodol a ledaenwyd i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Nododd yr Arweinydd ymhellach fod y Cynghorwyr K.P. Mahoney ac I.A.N. Perry wedi dweud na fyddent yn ymgymryd â'u swyddi ar Bwyllgor Craffu ac y byddai'r Cynghorydd S. Campbell yn ymgymryd â'r swydd wag ar y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ac y byddai'r

Cynghorydd M.J.G. Morgan yn ymgymryd â swydd ar y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.

PENDERFYNWYD –

(1) PENODI'r Pwyllgorau Craffu, ynghyd â'u Haelodaeth a'u Cylch Gorchwyl fel y nodir yn Atodiad B a'r Wybodaeth Atodol i'r adroddiad, ar gyfer y flwyddyn Ddinesig sy'n dilyn, gan nodi y byddai'r Cynghorydd S. Campbell yn cymryd sedd ar y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a'r Cynghorydd M.J.G. Morgan ar y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel, gyda'r Pwyllgor Cartrefi a Chymunedau Diogel yn cario dwy swydd wag.

(2) Y DYLID nodi dyraniad Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu penodol, fel y'i hysbyswyd gan yr Arweinwyr Grŵp perthnasol fel y'i nodir ym mharagraffau 2.1 i 2.3 yr adroddiad ac yn yr Wybodaeth Atodol, fel y dangosir isod:

- Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol– Y Cynghorydd J. Protheroe
- Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio– Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby
- Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol– Y Cynghorydd J.E. Charles
- Pwyllgor Craffu Tai a Chymunedau Diogel – Y Cynghorydd A.M. Collins
- Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant – Y Cynghorydd R.R. Thomas.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

10. PWYLLGORAU LLED-FARNWROL, PWYLLGORAU A CHYRFF ERAILL:
PENODI, CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH (PW) –

Atgoffwyd yr Aelodau gan yr adroddiad o'r angen i roi sylw arbennig i ddeddfwriaeth a ddaeth i rym ar 5 Mai, 2017 sy'n llywodraethu maint a chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio.

Mae Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 a ddaeth ag Adran 39 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 i rym ac a roddodd dehongliad manwl ohoni, i'r graddau yr oedd yn ymwneud â maint a chyfansoddiad Pwyllgorau sy'n cyflawni swyddogaethau.

Wedi'i nodi yn Atodiad A i'r adroddiad roedd y cyfrifiad a oedd yn ymwneud â'r gofyniad cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer pwyllgorau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1989. Roedd manylion aelodaeth y Pwyllgorau Lled-farnwrol, y Pwyllgorau a Chyrrff Eraill wedi'u lledaenu cyn y cyfarfod fel Gwybodaeth Atodol ar sail gwybodaeth a roddwyd gan Arweinwyr Grwpiau. Yn dilyn ymholiad mewn perthynas ag Aelodaeth yr Is-bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cadarnhaodd y Cynghorydd G.D.D. Carroll y byddai'n disodli'r Cynghorydd S.J. Haines ar yr Is-bwyllgor.

PENDERFYNWYD –

(1) Y DYLAI'r Pwyllgorau Lled-farnwrol, y Pwyllgorau a Chyrff Eraill, ynghyd â'u Cylch Gorchwyl (Atodiad B i'r adroddiad) a'u Haelodaeth, fel y nodir yn yr Wybodaeth Atodol a ledaenwyd cyn y cyfarfod ac a gyflwynwyd gyda'r adroddiad, yn cael eu penodi ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig sy'n dilyn, ar yr amod y nodir y byddai'r Cynghorydd G.D.D. Carroll yn cymryd lle'r Cynghorydd S.J. Haines ar Is-bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

(2) CYTUNO, o ystyried yr angen i gydymffurfio â maint a chyfansoddiad Rheoliadau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 wrth bennu maint a chyfansoddiad y Pwyllgor Cynllunio, ar yr aelodaeth fel yr amlinellir ym mharagraffau 2.3 i 2.5 yr adroddiad.

(3) Y DYLAI'r Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg fod yn gynrychiolydd ar Gydbwyllgor Gwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De.

(4) PENODI'R Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddio a Chadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwarchod y Cyhoedd yn gynrychiolwyr ar y Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir, gyda'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu ac Is-gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwarchod y Cyhoedd yn cael eu penodi'n eilyddion.

(5) Y BYDD y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau Corfforaethol yn cynrychioli'r Cyngor fel Cyfranddaliwr y Cwmni ac a fydd yn cael cyngor gan Banel Cynghori Cyfranddalwyr, sy'n cynnwys Swyddogion y Cyngor ar Gwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol "The Big Fresh Catering Company".

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-5) Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

11. DYDDIADAU CYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR (PW) –

PENDERFYNWYD – nodi y cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor ar y dyddiadau a ganlyn:

- 15 Gorffennaf, 2024
- 30 Medi, 2024
- 2 Rhagfyr, 2024
- 3 Mawrth, 2025
- 28 Ebrill, 2025.

12. ETHOL CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU (PW) –

Y Pwyllgorau y byddai Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cael eu penodi ar eu cyfer yn y Cyfarfod Blynyddol oedd yr holl gyrrff yn y tabl cydbwysedd gwleidyddol (y gellir

eu gweld yn Eitemau 7 ac 8 ar yr Agenda), ac eithrio'r rhai a ddangosir yn Eitem 10 ar yr Agenda lle mae darpariaethau deddfwriaethol, neu drefniadau penodol amgen, yn berthnasol ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD –

(1) Penodi Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau fel y nodir isod ar gyfer y flwyddyn ddinesig i ddod:

<u>Apeliadau:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd I.R. Buckley
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby
<u>Cyswllt Cymunedol:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd R.M. Birch
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Gwasanaethau Democrataidd:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd N.C. Thomas
<u>Adolygu Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd H.C. Hamilton
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd J. Lynch-Wilson
<u>Ymdeol yn Gynnar/ Dileu Swyddi:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd H.C. Hamilton
<u>Grŵp Cynghori Arfordir Treftadaeth Morgannwg:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd C. Stallard
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd Emma Goodjohn
<u>Ymchwilio:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd H.M. Payne
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams
<u>Cynllunio:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd N.C. Thomas
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Trwyddedu Diogelwch Cyhoeddus:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd J.M. Norman
<u>Trwyddedu Statudol:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd P. Drake
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd J.M. Norman
<u>Penodiad Uwch Reoli:</u>	Cadeirydd:	Arweinydd (Y Cynghorydd L. Burnett)
	Is-Gadeirydd:	Dirprwy Arweinydd (Y Cynghorydd B.E. Brooks)
<u>Ymddiriedolaeth:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd H.C. Hamilton
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd M.R. Wilson
<u>Cydbwyllgor Cyswllt Y Sector Gwirfoddol:</u>	Cadeirydd:	Y Cynghorydd R.M. Birch
	Is-Gadeirydd:	Y Cynghorydd I.R. Buckley
	Is-Gadeirydd-Anrhydeddus	I'w penodi o blith y 7 cynrychiolydd o'r Sectorau Gwirfoddol ac Iechyd

Deddf Ystâd yr Eglwys Cadeirydd: Y Cyngorydd M.R. Wilson
Yng Nghymru: Is-Gadeirydd: Y Cyngorydd P. Drake

(2) YR ymdrinnir â'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau sy'n weddill fel y nodir yn yr adroddiad, ar yr amod y nodir bod y Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldeb yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoleiddiol

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â'r trefniadau penodol sy'n gymwys ar hyn o bryd neu ddeddfwriaeth berthnasol.